



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2008 Rhif 781 (Cy.80)

2008 No. 781 (W.80)

**AMAETHYDDIAETH,
CYMRU, BWYD, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES
FOOD, WALES**

Rheoliadau Cynhyrchion Reis o
Unol Daleithiau America
(Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y
Farchnad) (Cymru) 2008

The Rice Products from the United
States of America (Restriction on
First Placing on the Market)
(Wales) Regulations 2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith, o ran Cymru, Benderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC ar fesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L244, 7.9.2006, t.27) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/162/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2006/601/EC sy'n ymwneud â mesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L52, 27.2.2008, t.25). Maent yn dirymu ac yn ail ddeddfu Rheoliadau Cynhyrchion Reis (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2006 (O.S.2006/2923 (Cy.260)).

These Regulations implement in relation to Wales Commission Decision 2006/601/EC on emergency measures regarding non-authorised genetically modified organism "LL RICE 601" in rice products (OJ No. L244, 7.9.2006, p.27) as last amended by Commission Decision 2008/162/EC amending Decision 2006/601/EC on emergency measures regarding the non-authorised genetically modified organism "LL RICE 601" in rice products (OJ No. L52, 27.2.2008, p.25). They revoke and re-enact the Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006 (S.I.2006/2923 (W.260)).

Mae'r Rheoliadau hyn—

These Regulations—

(1) yn gwahardd rhoi gyntaf ar y farchnad unrhyw "gynnyrch reis" (sy'n cyfateb i'r diffiniad o "rice product" yn rheoliad 2(1)), ac eithrio—

(1) prohibit the first placing on the market of any "rice product" (defined in regulation 2(1)), except where—

(a) pan fo gydag ef—

(a) it is accompanied by—

(i) datganiad gan weithredydd y busnes bwyd sy'n gyfrifol am y llwyth nad yw'r cynnyrch yn cynnwys dim ond reis, o gynhaef 2007 neu gynhaef ar ôl hynny, a fu'n ddarostyngedig i gynllun Ffederasiwn Reis UDA sy'n amcanu symud "LL Rice 601" ymaith o sianelau allforio'r UDA, a

(i) a statement from the food business operator responsible for the consignment that the product only contains rice, from the 2007 or a subsequent harvest, that was subject to the plan of the USA Rice Federation aiming to remove "LL Rice 601" from the US export channels, and

(ii) yr adroddiad dadansoddol, yn y gwreiddiol, a ddyroddwyd gan labordy y cyfeirir ato yn Atodiad II i Benderfyniad y Comisiwn yn cadarnhau nad yw'r cynnyrch yn cynnwys y reis a addaswyd yn enetig "LL RICE 601"; rhaid bod gyda'r adroddiad hwnnw ei hun ddogfen a ddyroddwyd gan Weinyddiaeth Archwiliad, Pacwyr a Stociardiau Grawn Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau yn unol â'r protocol a ddisgrifir yn yr Atodiad hwnnw (*rheoliad 3(1)(a)*), a

(b) pan gydymffurfir â gofynion penodedig ar gyfer llwythi a holltwyd (*rheoliad 3(1)(b)*);

(2) yn darparu bod person sy'n torri'r gwaharddiad hwnnw gan wybod hynny yn euog o dramgwydd ac yn pennu cosbau ar gyfer y tramgwydd hwnnw (*rheoliad 3(2)*);

(3) yn darparu ar gyfer eu gorfodi (*rheoliad 4*); a

(4) yn cymhwyso, gydag addasiadau, darpariaethau penodol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16) at ddibenion y Rheoliadau (*rheoliad 5*).

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

(ii) the original of an analytical report issued by a laboratory referred to in Annex II to the Commission Decision confirming that the product does not contain the genetically modified rice "LL RICE 601"; that report must itself be accompanied by an official document issued by the Grain Inspection, Packers and Stockyards Administration of the United States Department of Agriculture in accordance with the protocol described in that Annex (*regulation 3(1)(a)*), and

(b) specified requirements for split consignments are complied with (*regulation 3(1)(b)*);

(2) provide that a person who knowingly contravenes that prohibition is guilty of an offence and prescribe penalties for that offence (*regulation 3(2)*);

(3) provide for their enforcement (*regulation 4*); and

(4) apply with modifications certain provisions of the Food Safety Act 1990 (1990 c.16) for the purposes of the Regulations (*regulation 5*).

No regulatory impact assessment has been prepared in relation to these Regulations.

2008 Rhif 781 (Cy.80)

2008 No. 781 (W.80)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

BWYD, CYMRU

FOOD WALES

**Rheoliadau Cynhyrchion Reis o
Unol Daleithiau America
(Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y
Farchnad) (Cymru) 2008**

**The Rice Products from the United
States of America (Restriction on
First Placing on the Market)
(Wales) Regulations 2008**

Gwnaed 18 Mawrth 2008

Made 18 March 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 19 Mawrth 2008

*Laid before the National
Assembly for Wales* 19 March 2008

Yn dod i rym 20 Mawrth 2008

Coming into force 20 March 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(1).

Cafodd Gweinidogion Cymru eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol ar fwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid neu y porthir anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ag ef(2).

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(2).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

Title, commencement and application

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 20 Mawrth 2008.

1.—(1) The title of these Regulations is the Rice Products from the United States of America (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2008 and they come into force on 20 March 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli

Interpretation

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

2.—(1) In these Regulations—

(1) 1972 p.68

(1) 1972 c.68

(2) O.S. 2005/1971. Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weiniogion Cymru gan adrannau 58 a 59 o Atodlen 28 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) S.I. 2005/1971. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by sections 58 and 59 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

mae i "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yr ystyr sydd i "*food authority*" yn adran 5(1A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1);

ystyr "awdurdod bwyd anifeiliaid" ("*feed authority*") yw'r awdurdod y mae'n ofynnol iddo gan adran 67(1) o Ddeddf Amaeth 1970(2) orfodi'r Ddeddf honno o fewn ei ardal neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth;

Mae i "bwyd" ("*food*") yr ystyr a roddir i "food" yn erthygl 2 o Reoliad 178/2002;

mae i "bwyd anifeiliaid" ("*feed*") yr ystyr sydd i "feed" yn erthygl 3(4) o Reoliad 178/2002;

ystyr "cynnyrch reis" ("*rice product*") yw unrhyw gynnyrch reis y cyfeirir ato yn y tabl yn erthygl 1 o Benderfyniad y Comisiwn sy'n tarddu o Unol Daleithiau America;

mae i "ei osod gyntaf ar y farchnad" ("*first placing on the market*") yr ystyr sydd i "first placing on the market" ym Mhenderfyniad y Comisiwn;

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC sy'n ymwneud â mesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis(3) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/162/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2006/601/EC sy'n ymwneud â mesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis(4);

ystyr "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(5) fel fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch nifer ac enwau Panelau Gwyddonol Parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop(6).

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*"), mewn perthynas ag awdurdod bwyd anifeiliaid neu awdurdod bwyd yw unrhyw berson (boed yn swyddog o'r awdurdod ai peidio) a awdurdodwyd ganddo yn ysgrifenedig, naill ai yn

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*"), in relation to a feed authority or a food authority, means any person (whether or not an officer of the authority) who is authorised by it in writing, either generally or specially, to act in matters arising under these Regulations;

"the Commission Decision" ("*Penderfyniad y Comisiwn*") means Commission Decision 2006/601/EC on emergency measures regarding the non-authorised genetically modified organism "LL RICE 601" in rice products(1) as last amended by Commission Decision 2008/162/EC amending Decision 2006/601/EC on emergency measures regarding the non-authorised genetically modified organism "LL RICE 601" in rice products(2);

"feed" ("*bwyd anifeiliaid*") has the meaning given to it in Article 3(4) of Regulation 178/2002;

"feed authority" ("*awdurdod bwyd anifeiliaid*") means the authority required by section 67(1) of the Agriculture Act 1970(3) to enforce that Act within its area or as the case may be district;

"food" ("*bwyd*") has the meaning given to it in Article 2 of Regulation 178/2002;

"first placing on the market" ("*ei osod gyntaf ar y farchnad*") has the meaning that it bears in the Commission Decision;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the meaning that it bears by virtue of section 5(1A) of the Food Safety Act 1990(4);

"rice product" ("*cynnyrch reis*") means any rice product referred to in the table in Article 1 of the Commission Decision that originates from the United States of America; and

"Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*") means Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(5) as last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 amending Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council as regards the number and names of the Permanent Scientific Panels of the European Food Safety Authority(6).

(1) 1990 p.16. Mewnosodwyd adran 5(1A) gan Ddeddf Llwyodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19), adran 22(3) ac Atodlen 9, paragraff 16(1).

(2) 1970 p. 40.

(3) OJ Rhif L244, 7.9.2006, t.27.

(4) OJ Rhif L52, 27.2.2008, t.25.

(5) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(6) OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3.

(1) OJ No. L244, 7.9.2006, p.27.

(2) OJ No. L52, 27.2.2008, p.25.

(3) 1970 c. 40.

(4) 1990 c.16. Section 5(1A) was inserted by the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19), section 22(3) and Schedule 9, paragraph 16(1).

(5) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(6) OJ No. L100, 8.4.2006, p.3.

gyffredinol neu yn arbennig, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn;

(2) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 wedi eu neilltuo—

- (a) drwy orchymyn o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), i awdurdod iechyd porthladd; neu
- (b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(2), i fwrdd ar y cyd ar gyfer dosbarth unedig,

mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd i'w ddehongli, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y neilltuwyd y swyddogaethau hynny iddo.

Cyfyngiad ar osod cynhyrchion reis gyntaf ar y farchnad

3.—(1) Gwaherddir gosod cynhyrchion reis gyntaf ar y farchnad oni bai—

- (a) y cydymffurfir â'r amodau a bennir yn erthygl 2(1) o Benderfyniad y Comisiwn yn mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw; a
- (b) bod trefniadau wedi eu gwneud i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau a bennir yn erthygl 2(2) o Benderfyniad y Comisiwn mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw.

(2) Bydd unrhyw berson sy'n torri'r gwaharddiad ym mharagraff (1) gan wybod hynny yn euog o dramgwydd ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod uwchlaw lefel 5 ar y raddfa safonol, i garchariad am dymor heb fod yn hwy na 3 mis neu i'r ddau.

Gorfodi

4.—(1) Mae dyletswydd ar bob awdurdod bwyd anifeiliaid i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth, mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.

(2) Mae dyletswydd ar bob awdurdod bwyd i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal mewn perthynas â bwyd.

(3) At ddibenion galluogi'r awdurdod bwyd anifeiliaid i arfer ei ddyletswydd o dan baragraff (1) a galluogi'r awdurdod bwyd i arfer ei ddyletswydd o dan baragraff (2), rhaid i swyddog awdurdodedig o'r awdurdod dan sylw sicrhau y cedwir at y gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (4).

(2) Where any functions under the Food Safety Act 1990 are assigned—

- (a) by an order under section 2 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), to a port health authority; or
- (b) by an order under section 6 of the Public Health Act 1936(2), to a joint board for a united district,

any reference in these Regulations to a food authority is to be construed, so far as relating to those functions, as a reference to the authority to whom they are so assigned.

Restriction on first placing on the market of rice products

3.—(1) The first placing on the market of any rice product is prohibited unless—

- (a) the conditions specified in Article 2(1) of the Commission Decision are complied with in relation to that product; and
- (b) arrangements have been made to ensure compliance with the conditions specified in Article 2(2) of the Commission Decision in relation to that product.

(2) Any person who knowingly contravenes the prohibition in paragraph (1) is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale, to imprisonment for a term not exceeding three months or to both.

Enforcement

4.—(1) It is the duty of each feed authority to execute and enforce these Regulations within its area or as the case may be district in relation to feed.

(2) It is the duty of each food authority to execute and enforce these Regulations within its area in relation to food.

(3) For the purposes of enabling the feed authority to exercise its duty under paragraph (1) and the food authority to exercise its duty under paragraph (2), an authorised officer of the authority concerned must ensure that the requirements referred to in paragraph (4) are adhered to.

(1) 1984 p.22.

(2) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen gyda pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(1) 1984 c.22.

(2) 1936 c.49; section 6 is to be read with paragraph 1 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

- (4) Y gofynion yw'r rheini a bennir yn —
- (a) Erthygl 2 o Benderfyniad y Comisiwn (sy'n ymwneud â'r amodau y caniateir gosod llwythi o gynhyrchion reis gyntaf ar y farchnad tanynt);
 - (b) brawddeg gyntaf Erthygl 3 (1) o'r Penderfyniad hwnnw (sy'n ymwneud â mesurau rheoli mewn perthynas â chynhyrchion reis a gyflwynir i'w mewnforio neu sydd eisoes ar y farchnad); ac
 - (c) Erthygl 4 o'r Penderfyniad hwnnw (sy'n ymwneud â llwythi halogedig).

(5) Rhaid i bob awdurdod bwyd anifeiliaid a phob awdurdod bwyd roi'r fath gymorth a gwybodaeth i Weinidogion Cymru ac i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ag a ofynnir yn rhesymol ganddynt yng nghyswllt gweithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn.

Cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990

5. Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf honno neu Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

- (a) adran 20 (tramgwyddau sy'n codi oherwydd bai person arall);
- (b) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(1), gyda'r addasiad bod is-adranau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â thrangwydd o dan rheoliad 3(2) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thrangwydd o dan adran 14 neu 15, ac yn is-adran (2)(a) a (3)(b) bernir bod y cyfeiriadau at "*food*" yn gyfeiriadau at fwyd anifeiliaid neu fwyd ac yn is-adran (4)(b) bernir bod y cyfeiriadau at "*sale or intended for sale*" yn gyfeiriadau at "*first placing on the market*";
- (c) adran 32 (pwerau mynediad), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad yn is-adran (1) at "*an enforcement authority*" yn gyfeiriad at awdurdod bwyd anifeiliaid neu at awdurdod bwyd, ac y bernir bod cyfeiriadau at "*the authority's area*" yn gyfeiriadau at ei ardal neu, yn ôl y digwydd, ei ddosbarth, a bernir bod y cyfeiriad at "*a food authority*" yn gyfeiriad at awdurdod bwyd anifeiliaid neu at awdurdod bwyd;
- (ch) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);
- (d) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "*any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above*" yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath ag a grybwyllir yn is-adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (ch);

- (4) The requirements are those specified in —
- (a) Article 2 of the Commission Decision (which is concerned with the conditions under which consignments of rice products may first be placed on the market);
 - (b) the first sentence of Article 3 (1) of that Decision (which is concerned with control measures relating to rice products presented for importation or already on the market); and
 - (c) Article 4 of that Decision (which is concerned with contaminated consignments).

(5) Each feed authority and each food authority must give such assistance and information to the Welsh Ministers and the Food Standards Agency as they may reasonably request in connection with the execution and enforcement of these Regulations.

Application of various provisions of the Food Safety Act 1990

5. The following provisions of the Food Safety Act 1990 apply for the purposes of these Regulations with the modification that any reference in those provisions to that Act or Part thereof is to be construed as a reference to these Regulations —

- (a) section 20 (offences due to fault of another person);
- (b) section 21 (defence of due diligence)(1), with the modification that subsections (2) to (4) apply in relation to an offence under regulation 3(2) as they apply in relation to an offence under section 14 or 15, that in subsections (2)(a) and (3)(b) the references to "food" are to be deemed to be references to feed or food and that in subsection (4)(b) the references to "sale or intended sale" are to be deemed to be references to "first placing on the market";
- (c) section 32 (powers of entry), with the modification that in subsection (1) the reference to "an enforcement authority" is to be deemed to be a reference to a feed authority or a food authority, the references to "the authority's area" are to be deemed to be references to the authority's area or as the case may be district and the reference to "a food authority" is to be deemed to be a reference to a feed authority or a food authority;
- (d) section 33(1) (obstruction etc. of officers);
- (e) section 33(2), with the modification that the reference to "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" is to be deemed to be a reference to any such requirement as is mentioned in section 33(1)(b) as applied by sub-paragraph (d);

(1) Cafodd adran 21 ei diwygio gan O.S. 2004/3279.

(1) Section 21 was amended by S.I. 2004/3279.

- (dd) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(1), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (ch);
- (e) adran 35(2) a (3)(2), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (d);
- (f) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);
- (ff) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(3); ac
- (g) adran 44 (diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll), gyda'r addasiad y bernir bod cyfeiriadau at "*food authority*" yn gyfeiriadau at awdurdod bwyd anifeiliaid neu at awdurdod bwyd.

- (f) section 35(1) (punishment of offences)(1), in so far as it relates to offences under section 33(1) as applied by sub-paragraph (d);
- (g) section 35(2) and (3)(2), in so far as it relates to offences under section 33(2) as applied by sub-paragraph (e);
- (h) section 36 (offences by bodies corporate);
- (i) section 36A (offences by Scottish partnerships)(3); and
- (j) section 44 (protection of officers acting in good faith), with the modification that the references to "food authority" are to be deemed to be references to feed authority or food authority.

Dirymu

6. Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Reis (Cyfyngiadau ar eu Gosod Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2006(4) drwy hyn.

Revocation

6. The Rice Products (Restriction on First Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006(4) are revoked.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

18 Mawrth 2008

18 March 2009

(1) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p. 44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.

(2) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.

(3) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p. 28), Atodlen 5, paragraff 16.

(4) O.S. 2006/2923 (Cy.260).

(1) Section 35(1) is amended by the Criminal Justice Act 2003 (2003 c. 44), Schedule 26, paragraph 42, from a date to be appointed.

(2) Section 35(3) was amended by S.I. 2004/3279.

(3) Section 36A was inserted by the Food Standards Act 1999 (1999 c. 28), Schedule 5, paragraph 16.

(4) S.I. 2006/2923 (W.260).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 781 (Cy.80)

**AMAETHYDDIAETH,
CYMRU, BWYD, CYMRU**

Rheoliadau Cynhyrchion Reis o
Unol Daleithiau America
(Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y
Farchnad) (Cymru) 2008

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2008 No. 781 (W.80)

**AGRICULTURE, WALES
FOOD, WALES**

The Rice Products from the United
States of America (Restriction on
First Placing on the Market)
(Wales) Regulations 2008

©© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

£3.00

W286/04/08

ON